# Agenda - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Chwefror 2020

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6363

SeneddNHAMG@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod (09.15-09.30) PREIFAT

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) - Trafodion Cyfnod 2

(09.30-11.30) (Tudalennau 1 - 14)

Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Tom Henderson, Rheolwr y Bil - Llywodraeth Cymru

Richard Lewis, Cyfreithiwr - Llywodraeth Cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.21, dyma'r drefn ar gyfer trafodion Cyfnod 2: Adrannau 1 i 13; Atodlen; Teitl hir.

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.68, mae'r Llywydd wedi penderfynu nad yw'r Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) yn gofyn am benderfyniad ariannol.

Mae'r Llywydd wedi ystyried y gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2 yn unol â Rheol Sefydlog 26.72, ac mae wedi penderfynu nad yw effeithiau unrhyw un o'r gwelliannau, neu'r gwelliannau oll, os cytunir arnynt, yn gofyn am benderfyniadau ariannol.

Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) – Memorandwm Esboniadol

Dogfennau atodol:

Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli

Grwpio Gwelliannau

## 3 Papurau i'w nodi

(11.30)

### 3.1 Tlodi Tanwydd – Crynodeb o ymgysylltu

(Tudalennau 15 - 24)

Dogfennau atodol:

Nodyn cryno

### 3.2 Ymateb Llywodraeth Cymru at Adroddiad y Pwyllgor ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft

(Tudalennau 25 - 26)

Dogfennau atodol:

Llythyr

### 3.3 Y wybodaeth ddiweddaraf a gwahoddiad gan Bwyllgor Sbwriel a Gwastraff Plastig Senedd Ieuenctid Cymru

(Tudalennau 27 - 29)

Dogfennau atodol:

Llythyr

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 11.30 –12.00 PREIFAT

## 5 Trafod y flaenraglen waith

(Tudalennau 30 - 33)

Dogfennau atodol:

Papur (Saesneg yn unig)

# RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI
# MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

## Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)
## Wild Animals and Circuses (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag 'R' yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu 17 wrth gyflwyno'r gwelliant.
Amendments marked 'R' mean that the Member has declared either a registrable interest under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn—
The Bill will be considered in the following order—

| | |
|---|---|
| Sections 1 - 13 | Adrannau 1 - 13 |
| Schedule | Atodlen |
| Long Title | Teitl Hir |

**Llyr Gruffydd** **1**

Section 1, page 1, after line 11, insert—

'( ) travels with the travelling circus,'.

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 11, mewnosoder—

'( ) yn teithio gyda'r syrcas deithiol,'.

**Andrew RT Davies** **41**

Section 1, page 1, after line 11, insert—

'( ) is trained,'.

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 11, mewnosoder—

'( ) wedi'i hyfforddi,'.

**Llyr Gruffydd** **2**

Page 1, after line 15, insert a new section—

**'[ ] Disqualification**

(1) If a person is convicted of an offence under section 1, the court by or before which that person is convicted may, instead of or in addition to the imposition of a fine, make an order disqualifying that person under any one or more of subsections (2) to (4) for such period as it thinks fit.

(2) Disqualification under this subsection disqualifies a person—

(a) from owning wild animals,

(b) from keeping wild animals,

(c) from participating in the keeping of wild animals, and

(d) from being party to an arrangement under which that person is entitled to control or influence the way in which wild animals are kept.

(3) Disqualification under this subsection disqualifies a person from dealing in wild animals.

(4) Disqualification under this subsection disqualifies a person—

(a) from transporting wild animals, and

(b) from arranging for the transport of wild animals.

(5) Disqualification under subsection (2), (3) or (4) may be imposed in relation to wild animals generally, or in relation to wild animals of one or more kinds.

(6) The court by which an order under subsection (1) is made may specify a period during which the offender may not make an application under section *[section to be inserted by amendment 3]*(1) for termination of the order.

(7) The court by which an order under subsection (1) is made may—

(a) suspend the operation of the order pending an appeal, or

(b) where it appears to the court that the offender owns or keeps a wild animal to which the order applies, suspend the operation of the order, for such period as it thinks necessary for enabling alternative arrangements to be made in respect of the wild animal.

(8) Where a court decides not to make an order under subsection (1) in relation to an offender, it shall—

(a) give its reasons for the decision in open court, and

(b) if it is a magistrates' court, cause them to be entered in the register of its proceedings.

(9) A person who breaches a disqualification imposed by an order under subsection (1) commits an offence.'.

Tudalen 1, ar ôl llinell 15, mewnosoder adran newydd—

**‘[ ] Anghymhwyso**

(1) Os dyfernir person yn euog o drosedd o dan adran 1, caiff y llys y dyfernir y person yn euog ganddo neu ger ei fron, yn hytrach na gosod dirwy neu yn ogystal â’i gosod, wneud gorchymyn yn anghymhwyso’r person hwnnw o dan unrhyw un neu ragor o is-adrannau (2) i (4) am unrhyw gyfnod sy’n addas ym marn y llys.

(2) Mae anghymhwysiad o dan yr is-adran hon yn anghymhwyso person rhag—

(a) bod yn berchen ar anifeiliaid gwyllt,

(b) cadw anifeiliaid gwyllt,

(c) cymryd rhan mewn cadw anifeiliaid gwyllt, a

(d) bod yn barti mewn trefniant lle y mae gan y person hwnnw yr hawl i reoli’r ffordd y cedwir anifeiliaid gwyllt neu ddylanwadu ar y ffordd y’u cedwir.

(3) Mae anghymhwysiad o dan yr is-adran hon yn anghymhwyso person rhag ymdrin ag anifeiliaid gwyllt.

(4) Mae anghymhwysiad o dan yr is-adran hon yn anghymhwyso person rhag—

(a) cludo anifeiliaid gwyllt, a

(b) trefnu i gludo anifeiliaid gwyllt.

(5) Caniateir anghymhwyso o dan is-adran (2), (3) neu (4) mewn perthynas ag anifeiliaid gwyllt yn gyffredinol, neu mewn perthynas ag anifeiliaid o un fath neu fwy.

(6) Caiff y llys sy’n gwneud gorchymyn o dan is-adran (1) bennu cyfnod pryd na chaniateir i droseddwr wneud cais o dan adran *[yr adran sydd i’w mewnosod gan welliant 3]*(1) i derfynu’r gorchymyn.

(7) Caiff y llys sy’n gwneud y gorchymyn o dan is-adran (1)—

(a) gohirio gweithrediad y gorchymyn wrth aros am apêl, neu

(b) pan fo’n ymddangos i’r llys bod y troseddwr yn berchen ar anifail gwyllt neu’n cadw anifail gwyllt y mae’r gorchymyn yn gymwys iddo, ohirio gweithrediad y gorchymyn, am unrhyw gyfnod sy’n angenrheidiol ym marn y llys er mwyn gallu gwneud trefniadau amgen mewn perthynas â’r anifail gwyllt.

(8) Os bydd llys yn penderfynu peidio â gwneud gorchymyn o dan is-adran (1) mewn perthynas â throseddwr, rhaid iddo—

(a) rhoi ei resymau dros y penderfyniad mewn llys agored, a

(b) os mai llys ynadon ydyw, peri i’r rhesymau gael eu cynnwys yn y gofrestr o’i drafodion.

(9) Mae person sy’n torri anghymhwysiad a osodir gan orchymyn o dan is-adran (1) yn cyflawni trosedd.’.

**Llyr Gruffydd** **3**

Page 1, after line 15, insert a new section—

‘[ ] **Termination of disqualification under section *[section to be inserted by amendment 2]***

(1) A person who is disqualified by virtue of an order under section *[section to be inserted by amendment 2]* may apply to the appropriate court for the termination of the order.

(2) No application under subsection (1) may be made—

(a) before the end of the period of one year beginning with the date on which the order is made,

(b) where a previous application under that subsection has been made in relation to the same order, before the end of the period of one year beginning with the date on which the previous application was determined, or

(c) before the end of any period specified under section *[section to be inserted by amendment 2]*(6) or subsection (5) below in relation to the order.

(3) On an application under subsection (1), the court may—

(a) terminate the disqualification,

(b) vary the disqualification so as to make it less onerous, or

(c) refuse the application.

(4) When determining an application under subsection (1), the court shall have regard to the character of the applicant, their conduct since the imposition of the disqualification and any other circumstances of the case.

(5) Where the court refuses an application under subsection (1), it may specify a period during which the applicant may not make a further application under that subsection in relation to the order concerned.

(6) The court may order an applicant under subsection (1) to pay all or part of the costs of the application.

(7) In subsection (1), the reference to the appropriate court is to—

(a) the court which made the order under section *[section to be inserted by amendment 2]*, or

(b) in the case of an order made by a magistrates' court, to a magistrates' court acting for the same local justice area as that court.’.

Tudalen 1, ar ôl llinell 15, mewnosoder adran newydd—

‘[ ] **Terfynu anghymhwysiad o dan adran *[yr adran sydd i’w mewnosod gan welliant 2]***

(1) Caiff person sydd wedi’i anghymhwyso yn rhinwedd gorchymyn o dan adran *[yr adran sydd i’w mewnosod gan welliant 2]* wneud cais i derfynu’r gorchymyn gyda’r llys priodol.

(2) Ni chaniateir gwneud cais o dan is-adran (1)—

(a) cyn diwedd y cyfnod o flwyddyn sy’n dechrau â’r dyddiad y gwneir y gorchymyn,

(b) pan fo cais blaenorol o dan yr is-adran honno wedi’i wneud mewn perthynas â’r un gorchymyn, cyn diwedd y cyfnod o flwyddyn sy’n dechrau â’r dyddiad y pennwyd y cais blaenorol, neu

(c) cyn diwedd unrhyw gyfnod a bennir o dan adran *[yr adran sydd i'w mewnosod gan welliant 2]*(6) neu is-adran (5) isod mewn perthynas â'r gorchymyn.

(3) O ran cais o dan is-adran (1), caiff y llys—

(a) terfynu'r anghymhwysiad,

(b) amrywio'r anghymhwysiad er mwyn ei wneud yn llai beichus, neu

(c) gwrthod y cais.

(4) Wrth bennu cais o dan is-adran (1), rhaid i'r llys roi sylw i gymeriad y sawl sy'n gwneud cais, ei ymddygiad ers gosod yr anghymhwysiad ac unrhyw amgylchiadau eraill ynghylch yr achos.

(5) Os bydd y llys yn gwrthod cais o dan is-adran (1), caiff bennu cyfnod pryd na chaniateir i'r sawl sy'n gwneud cais wneud cais pellach o dan yr is-adran honno mewn perthynas â'r gorchymyn o dan sylw.

(6) Caiff y llys orchymyn i'r sawl sy'n gwneud cais o dan is-adran (1) dalu holl gostau'r cais neu ran o'r costau hynny.

(7) Yn is-adran (1), mae'r cyfeiriad at y llys priodol yn gyfeiriad at—

(a) y llys a wnaeth y gorchymyn o dan adran *[yr adran sydd i'w mewnosod gan welliant 2]*, neu

(b) yn achos gorchymyn a wneir gan lys ynadon, lys ynadon sy'n gweithredu ar ran yr un ardal cyfiawnder lleol â'r llys hwnnw.'.

**Andrew RT Davies** **42**

Page 2, after line 12, insert a new section—

*'Guidance*

**[ ] Guidance**

(1) The Welsh Ministers must issue guidance to assist in the interpretation of what is, and what is not, to be considered to be a travelling circus in section 4.

(2) The Welsh Ministers may revise any guidance issued under this section.

(3) The Welsh Ministers must arrange for any guidance issues or revised under this section to be published.'.

Tudalen 2, ar ôl llinell 12, mewnosoder adran newydd—

*'Canllawiau*

**[ ] Canllawiau**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i gynorthwyo i ddehongli beth yw, a beth nad yw, i gael ei ystyried yn syrcas deithiol yn adran 4.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru adolygu unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi unrhyw ganllawiau a ddyroddir neu a adolygir o dan yr adran hon.’.

**Llyr Gruffydd** **4**

Page 4, after line 20, insert a new section—

**‘[ ] Guidance**

(1) The Welsh Ministers must issue guidance to support the implementation of the Bill.

(2) Such guidance must include, but is not limited to—

(a) guidance on the meaning of wild animal,

(b) guidance on the meaning of travelling circus, and

(c) guidance on the meaning of exhibit.

(3) The Welsh Ministers may revise any guidance issued under this section.

(4) The Welsh Ministers must arrange for any guidance issued or revised under this section to be published.’.

Tudalen 4, ar ôl llinell 22, mewnosoder adran newydd—

**‘[ ] Canllawiau**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i gefnogi’r gwaith o weithredu’r Bil.

(2) Rhaid i ganllawiau o’r fath gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi’u cyfyngu i hynny—

(a) canllawiau ar ystyr anifail gwyllt,

(b) canllawiau ar ystyr syrcas deithiol, ac

(c) canllawiau ar ystyr arddangos.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru drefnu bod unrhyw ganllawiau a ddyroddir neu a ddiwygir o dan yr adran hon yn cael eu cyhoeddi.’.

**Llyr Gruffydd** **5**

Section 12, page 4, line 30, leave out ‘on 1 December 2020’ and insert ‘at the end of the period of two months beginning with the day on which this Act receives Royal Assent’.

Adran 12, tudalen 4, llinell 32, hepgorer ‘1 Rhagfyr 2020’ a mewnosoder ‘ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy’n dechrau â’r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol’.

**Llyr Gruffydd** **6**

Schedule, page 5, line 11, after ‘inspector’, insert ‘or a constable’.

Atodlen, tudalen 5, llinell 15, ar ôl ‘arolygydd’, mewnosoder ‘neu gwnstabl’.

**Llyr Gruffydd** **7**

Schedule, page 5, line 23, after ‘inspector’ at the first place where it appears, insert ‘or a constable’.

Atodlen, tudalen 5, llinell 23, ar ôl ‘arolygydd’ yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder ‘neu gwnstabl’.

**Llyr Gruffydd** **8**

Schedule, page 5, line 23, after ‘inspector’ at the second place where it appears, insert ‘or constable’.

Atodlen, tudalen 5, llinell 23, ar ôl ‘arolygydd’ yn yr ail le y mae'n ymddangos, mewnosoder ‘neu’r cwnstabl’.

**Llyr Gruffydd** **9**

Schedule, page 5, line 31, after ‘inspector’, insert ‘or a constable’.

Atodlen, tudalen 5, llinell 32, ar ôl ‘arolygydd’, mewnosoder ‘neu gwnstabl’.

**Llyr Gruffydd** **10**

Schedule, page 5, line 32, after ‘inspector’, insert ‘or constable’.

Atodlen, tudalen 5, llinell 34, ar ôl ‘arolygydd’, mewnosoder ‘neu’r cwnstabl’.

**Llyr Gruffydd** **11**

Schedule, page 6, line 1, after ‘inspector’, insert ‘or a constable’.

Atodlen, tudalen 6, llinell 1, ar ôl ‘arolygydd’, mewnosoder ‘neu gwnstabl’.

**Llyr Gruffydd** **12**

Schedule, page 6, line 2, after ‘inspector’, insert ‘or constable’.

Atodlen, tudalen 6, llinell 2, ar ôl ‘arolygydd’, mewnosoder ‘neu’r cwnstabl’.

**Llyr Gruffydd** **13**

Schedule, page 6, line 14, after ‘inspector’, insert ‘or constable’.

Atodlen, tudalen 6, llinell 15, ar ôl ‘arolygydd’, mewnosoder ‘neu’r cwnstabl’.

**Llyr Gruffydd** **14**

Schedule, page 6, line 25, after ‘inspector’, insert ‘or a constable’.

Atodlen, tudalen 6, llinell 27, ar ôl ‘arolygydd’, mewnosoder ‘neu gwnstabl’.

**Llyr Gruffydd** **15**

Schedule, page 6, line 26, after 'inspector's', insert 'or constable's'.

Atodlen, tudalen 6, llinell 28, ar ôl 'arolygydd', mewnosoder 'neu'r cwnstabl'.

**Llyr Gruffydd** **16**

Schedule, page 6, line 28, after 'inspector', insert 'or a constable'.

Atodlen, tudalen 6, llinell 30, ar ôl 'arolygydd', mewnosoder 'neu gwnstabl'.

**Llyr Gruffydd** **17**

Schedule, page 6, line 29, after 'inspector', insert 'or constable'.

Atodlen, tudalen 6, llinell 31, ar ôl 'arolygydd', mewnosoder 'neu'r cwnstabl'.

**Llyr Gruffydd** **18**

Schedule, page 6, line 31, after 'inspector', insert 'or constable'.

Atodlen, tudalen 6, llinell 33, ar ôl 'arolygydd', mewnosoder 'neu'r cwnstabl'.

**Llyr Gruffydd** **19**

Schedule, page 6, line 33, after 'inspector', insert 'or constable'.

Atodlen, tudalen 6, llinell 35, ar ôl 'arolygydd', mewnosoder 'neu'r cwnstabl'.

**Llyr Gruffydd** **20**

Schedule, page 6, line 35, after 'inspector', insert 'or constable'.

Atodlen, tudalen 6, llinell 37, ar ôl 'arolygydd', mewnosoder 'neu'r cwnstabl'.

**Llyr Gruffydd** **21**

Schedule, page 7, line 1, after 'inspector', insert 'or constable'.

Atodlen, tudalen 7, llinell 1, ar ôl 'arolygydd', mewnosoder 'neu'r cwnstabl'.

**Llyr Gruffydd** **22**

Schedule, page 7, line 2, after 'inspector', insert 'or constable'.

Atodlen, tudalen 7, llinell 2, ar ôl 'arolygydd', mewnosoder 'neu'r cwnstabl'.

**Llyr Gruffydd** **23**

Schedule, page 7, line 3, after 'inspector', insert 'or constable'.

Atodlen, tudalen 7, llinell 3, ar ôl 'arolygydd', mewnosoder 'neu gwnstabl'.

**Llyr Gruffydd** **24**

Schedule, page 7, line 4, after 'inspector', insert 'or constable'.

Atodlen, tudalen 7, llinell 4, ar ôl 'arolygydd', mewnosoder 'neu'r cwnstabl'.

**Llyr Gruffydd** **25**

Schedule, page 7, line 6, after 'inspector', insert 'or constable'.

Atodlen, tudalen 7, llinell 6, ar ôl 'arolygydd', mewnosoder 'neu gwnstabl'.

**Llyr Gruffydd** **26**

Schedule, page 7, line 8, after 'inspector', insert 'or constable'.

Atodlen, tudalen 7, llinell 8, ar ôl 'arolygydd', mewnosoder 'neu gwnstabl'.

**Llyr Gruffydd** **27**

Schedule, page 7, line 9, after 'inspector', insert 'or constable'.

Atodlen, tudalen 7, llinell 9, ar ôl 'arolygydd', mewnosoder 'neu'r cwnstabl'.

**Llyr Gruffydd** **28**

Schedule, page 7, line 11, after 'inspector', insert 'or constable'.

Atodlen, tudalen 7, llinell 12, ar ôl 'arolygydd', mewnosoder 'neu'r cwnstabl'.

**Llyr Gruffydd** **29**

Schedule, page 7, line 14, after 'inspector', insert 'or a constable'.

Atodlen, tudalen 7, llinell 14, ar ôl 'arolygydd', mewnosoder 'neu gwnstabl'.

**Andrew RT Davies** **43**

Schedule, page 7, line 16, leave out 'including' and insert 'excluding'.

Atodlen, tudalen 7, llinell 16, hepgorer 'gan gynnwys' a mewnosoder 'ac eithrio'.

**Llyr Gruffydd** **30**

Schedule, page 7, line 19, after 'inspector', insert 'or constable'.

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version.

**Llyr Gruffydd** **31**

Schedule, page 7, line 20, after 'inspector', insert 'or constable'.

Atodlen, tudalen 7, llinell 20, ar ôl 'arolygydd', mewnosoder 'neu'r cwnstabl'.

**Andrew RT Davies** **44**

Schedule, page 7, line 21, leave out 'including' and insert 'excluding'.

Atodlen, tudalen 7, llinell 21, hepgorer 'gan gynnwys' a mewnosoder 'ac eithrio'.

**Llyr Gruffydd** **32**

Schedule, page 7, line 34, after 'inspector', insert 'or constable'.

Atodlen, tudalen 7, llinell 35, ar ôl 'arolygydd', mewnosoder 'neu'r cwnstabl'.

**Llyr Gruffydd** **33**

Schedule, page 7, line 37, after 'inspector', insert 'or constable'.

Atodlen, tudalen 7, llinell 38, ar ôl 'arolygydd' yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder 'neu gwnstabl'.

**Llyr Gruffydd** **34**

Schedule, page 7, line 38, after 'inspector', insert 'or constable'.

Atodlen, tudalen 7, llinell 38, ar ôl 'arolygydd' yn yr ail le y mae'n ymddangos, mewnosoder 'neu'r cwnstabl'.

**Andrew RT Davies** **45**

Schedule, page 7, after line 38, insert—

'[ ] (1) A veterinary surgeon or suitably trained person with an appropriate level of expertise in the health and welfare requirements of animals on the premises, who is taken on to the premises in accordance with paragraph 8(a) may —

(a) examine, measure or test an animal that is found on the premises;

(b) take a sample from an animal.

(2) The Welsh Ministers may specify in regulations one or more categories of persons who are able to be regarded as being suitably trained for the purposes of sub-paragraph (1), above.

(3) Regulations made under sub-paragraph (2) may make different provision for different animals.'.

Atodlen, tudalen 7, ar ôl llinell 38, mewnosoder—

‘[ ] (1) Caiff milfeddyg neu berson ar y fangre sydd wedi’i hyfforddi’n addas a chanddo lefel briodol o arbenigedd mewn anghenion iechyd a lles anifeiliaid yr eir ag ef i’r fangre yn unol â pharagraff 8(a)—

(a) archwilio, mesur neu brofi anifail a ganfyddir ar y fangre;

(b) cymryd sampl o anifail.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau un neu ragor o gategorïau o bersonau sy’n gallu cael eu hystyried yn bersonau sydd wedi’i hyfforddi’n addas at ddibenion is-baragraff (1) uchod.

(3) Caiff rheoliadau a wneir o dan is-baragraff (2) wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer anifeiliaid gwahanol.’.

**Llyr Gruffydd** **35**

Schedule, page 8, line 18, after ‘inspector’, insert ‘or constable’.

Atodlen, tudalen 8, llinell 21, ar ôl ‘arolygydd’, mewnosoder ‘neu gwnstabl’.

**Llyr Gruffydd** **36**

Schedule, page 8, line 19, after ‘inspector’s’, insert ‘or constable’s’.

Atodlen, tudalen 8, llinell 22, ar ôl ‘arolygydd’, mewnosoder ‘neu’r cwnstabl’.

**Llyr Gruffydd** **37**

Schedule, page 8, line 22, after ‘inspector’, insert ‘or a constable’.

Atodlen, tudalen 8, llinell 25, ar ôl ‘arolygydd’, mewnosoder ‘neu gwnstabl’.

**Llyr Gruffydd** **38**

Schedule, page 8, line 23, after ‘inspector’, insert ‘or constable’.

Atodlen, tudalen 8, llinell 26, ar ôl ‘arolygydd’, mewnosoder ‘neu gwnstabl’.

**Llyr Gruffydd** **39**

Schedule, page 8, line 24, after ‘inspector’, insert ‘or constable’.

Atodlen, tudalen 8, llinell 27, ar ôl ‘arolygydd’, mewnosoder ‘neu’r cwnstabl’.

**Llyr Gruffydd** **40**

Schedule, page 8, after line 24, insert—

*'Powers of constables under this schedule*

14 The powers conferred on constables by this schedule are without prejudice to any powers conferred on constables apart from this schedule.'.

Atodlen, tudalen 8, ar ôl llinell 27, mewnosoder—

*'Pwerau cwnstabliaid o dan yr atodlen hon*

14 Nid yw'r pwerau a roddir i gwnstabliaid gan yr atodlen hon yn lleihau effaith unrhyw bwerau a roddir i gwnstabliaid ar wahân i'r atodlen hon.'.

# GRWPIO GWELLIANNAU
# GROUPINGS OF AMENDMENTS

## Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)
## Wild Animals and Circuses (Wales) Bill

### Cyfnod 2 ar 5 Chwefror 2020
### Stage 2 on 5 February 2020

Mae'r ddogfen hon yn nodi ym mha drefn y caiff y gwelliannau eu trafod ac unrhyw wybodaeth berthnasol yn ymwneud â'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i bob grŵp. Nid yw'r rhestr hon yn disodli'r rhestr o welliannau wedi'u didoli, sy'n nodi'r gwelliannau yn y drefn y cânt eu gwaredu. Dylai'r rhestr hon gael ei darllen ar y cyd â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli.

This document provides the order in which amendments will be debated and any relevant procedural information relevant to each group. This list does not replace the marshalled list, which sets out the amendments in the order in which they will be disposed of. This list should be read in conjunction with the marshalled list.

**1. Trosedd i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol**

**Offence to use wild animals in travelling circuses**

**1, 41**

**2. Anghymhwyso troseddwyr**

**Disqualification of offenders**

**2, 3**

**3. Canllawiau**

**Guidance**

**42, 4**

**4. Dod i rym**

**Coming into force**

**5**

**5. Pwerau gorfodi**

**Powers of enforcement**

**6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40**

**6. Pwerau arolygu**

**Powers of inspection**

**43, 44, 45**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

Eitem 3.1

# Tlodi tanwydd - Crynodeb o ymgysylltu

13 Chwefror 2020

## Y cefndir

Fel rhan o ymchwiliad y **Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** i **dlodi tanwydd**, mae Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi bod yn casglu barn pobl ledled Cymru.

## Methodoleg

Trefnodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfres o grwpiau ffocws gyda phobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o hynny, a staff sy'n cynorthwyo unigolion â phroblemau ynni, rhwng **3 Rhagfyr 2019** a **23 Ionawr 2020**.

**Trefnwyd 4 sesiwn** ledled Cymru yn cynnwys **25 o ddinasyddion** o dri o ranbarthau'r Cynulliad. Trefnwyd sesiynau ym **Mhowys (Trefyclo), Abertawe, Sir Ddinbych (Y Rhyl)** a **Gwynedd (Bangor).** Roedd y cyfranogwyr yn y sesiynau yn dod o ardaloedd yr awdurdodau lleol uchod yn ogystal ag ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Cysylltwyd â nifer o sefydliadau a grwpiau perthnasol er mwyn dod o hyd i gyfranogwyr. Roedd y rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Age Cymru, Sefydliad Bevan, Cyngor ar Bopeth, Anabledd Cymru, Tai Pawb, Ymddiriedolaeth Trussell a Phrifysgolion yng Nghymru.

## Trefn

Trafodwyd y pynciau canlynol fel rhan o'r sesiynau: -

- Profiad o dlodi tanwydd;
- Cymorth i'r rheini sy'n byw mewn tlodi tanwydd neu sydd mewn perygl o fyw mewn tlodi tanwydd;

- Achosion tlodi tanwydd;
- Demograffeg pobl mewn tlodi tanwydd;
- Effaith tlodi tanwydd ar iechyd a lles;
- Tlodi tanwydd yn ardaloedd gwledig Cymru
- Addysg;
- Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru;
- Tai

## Crynodeb o'r themâu allweddol

### Gwresogi neu fwyta

Roedd yr heriau dyddiol o fyw mewn tlodi tanwydd, neu o fod mewn perygl o fyw mewn tlodi tanwydd, yn thema a oedd yn codi ei phen dro ar ôl tro yn nhrafodaethau'r holl grwpiau ffocws. Roedd llawer yn disgrifio'r dewis ymwybodol o "*wresogi neu fwyta*" fel cyfyng-gyngor mynych i lawer.

Soniodd un cyfranogwr sy'n cynghori cleientiaid ar faterion ynni ei fod wedi bod yn rhoi cyngor i unigolyn a oedd yn derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) a Budd-dal Tai. Mae tua 30% o incwm yr unigolyn yn cael ei wario ar filiau ynni.

> *"I gleientiaid o'r fath, yn aml dydyn nhw byth yn gweld ffordd allan o'r sefyllfa. Mae ganddo rewgell 30 oed ac oergell 25 oed heb sêl. Yn yr haf, mae'n storio ei inswlin mewn bwced o ddŵr oer ar y llawr. "*
>
> ***Cyfranogwr grŵp ffocws, Sir Benfro***

Esboniodd cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws fod pwysau sylweddol ar unigolion sy'n derbyn budd-daliadau ac er bod cytundeb bod gan rai broblemau yn cyllidebu, mae'n feirniadaeth sy'n aml yn cael ei thargedu'n annheg at y mwyafrif sydd mewn tlodi tanwydd.

> *"Os oes unrhyw un ohonyn nhw ar y gyfradd sylfaenol, does ganddyn nhw ddim yr incwm ychwanegol fel y gallan nhw gyllidebu."*
>
> ***Cyfranogwr grŵp ffocws, Sir Ddinbych***
>
> *"Mae gan bobl fwy o filiau y dyddiau hyn nag a fu'n draddodiadol. Rydyn ni'n byw mewn cyfnod digidol yn ddiofyn. Os oes gan bobl ddyled mewn meysydd eraill, nid yw taflen gyllidebu ein hawdurdod lleol yn cynnwys 'cyfathrebu' fel blaenoriaeth ... ac*

*eto, gofynnir yn gynyddol i bobl wneud y rhan fwyaf o bethau ar-lein. Er enghraifft, mae'r bargeinion gorau ar gyfer biliau tanwydd i'w cael ar-lein. "*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Ynys Môn***

Esboniodd rhai cyfranogwyr mai'r rhai sydd o bosib yn teimlo pwysau tlodi tanwydd fwyaf ymysg y rhai sy'n hawlio budd-daliadau yw'r hawlwyr budd-dal sengl heb unrhyw anableddau na chydrannau'n daladwy, a hawlwyr Credyd Cynhwysol (yn hawlwyr sengl ac yn deuluoedd).

Esboniodd un cyfranogwr yn Nhrefyclo, a oedd yn gynghorydd lleol, ei bod hi'n credu bod nifer o bobl yn Nhrefyclo yn dewis rhwng tanwydd a bwyd yn rheolaidd.

*"Mae yna lawer yn yr ardal hon. Mae gen i bobl sy'n crio ar y ffôn yn eithaf rheolaidd. Tadau sy'n teimlo eu bod yn siomi eu teuluoedd oherwydd bod yn rhaid iddyn nhw wneud y dewis yna. Dydy hwn ddim yn ddewis y dylen nhw orfod ei wneud. "*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Powys***

Trafododd rhai cyfranogwyr y cynnydd yn nifer y bobl sy'n ymweld â banciau bwyd, a demograffeg newidiol y bobl hynny, yn rhannol oherwydd yr heriau ynghlwm wrth dalu biliau tanwydd. Roedd y mwyafrif yn cytuno y gallai rhai pobl fod wedi gallu dibynnu ar gymorth elusennol yn y gorffennol, ond gan fod y trydydd sector yn wynebu toriadau cynyddol, nid yw hyn yn wir bellach.

*"Weithiau mae'n rhaid i ni feddwl yn ofalus am ba fwyd i'w roi, oherwydd ni all rhai pobl fforddio'r tanwydd i goginio. Efallai mai dim ond tegell, tostiwr ac un hob coginio sydd gan rai. Rydyn ni'n aml yn rhoi bwyd y gallan nhw ei gynhesu'n gyflym.*

*Rydyn ni'n helpu mwy a mwy o bobl o hyd. Erbyn hyn mae'r rhaniad tua 50/50 o ran teuluoedd sydd mewn gwaith ac allan o waith. "*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Powys***

## Y Gymru Wledig

Ymhob un o'r grwpiau ffocws, cafwyd trafodaeth hir am y problemau unigryw sy'n wynebu pobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd, neu'r rhai sydd mewn perygl o hynny, yn ardaloedd gwledig Cymru.

Disgrifiwyd cymhlethdod yr her o addasu hen dai cerrig, o fyw mewn ardal nad yw ar y grid ac o'r herwydd, yr her o ymdopi â rheoli biliau ynni cymharol uchel, a hynny'n aml ar incwm isel, fel problem wanychol i unigolion lawer.

Roedd gan rai o'r cyfranogwyr brofiad o ddarparu cyngor ar ynni i bobl sy'n ddibynnol ar olew, gwresogyddion stôr neu nwy petrolewm hylifedig (LPG o hyn ymlaen), a chafwyd trafodaeth am ddemograffeg newidiol y rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd. Roeddent yn egluro bod pobl yn aml yn meddwl mai pobl hŷn neu rai sy'n derbyn budd-daliadau sy'n profi tlodi tanwydd, ond mae'r grŵp o bobl sy'n *"dlawd mewn gwaith"* yn profi tlodi tanwydd fwyfwy.

> *"Yn aml gall biliau tanwydd fod yn ddwbl yr hyn y mae Ofgem yn amcangyfrif yw'r cyfartaledd blynyddol ar gyfer y rhai sy'n gwresogi eu cartrefi â nwy. Felly mae'n cynnwys teuluoedd na fyddech chi o reidrwydd wedi meddwl y bydden nhw'n profi tlodi tanwydd, nac mewn perygl o hynny - pobl sy'n ennill rhwng £23,000 a £25,000 ac sy'n gwario rhwng £2,000 - £3,000 ar eu biliau tanwydd. "*
>
> ***Cyfranogwr grŵp ffocws, Ceredigion***

Esboniodd un cyfranogwr yr heriau sy'n wynebu pobl sy'n byw yn Ynys Môn, gan fod cyfran sylweddol ohonynt yn byw mewn ardal nad yw ar y grid.

> *"Roedd gen i gleient oedd â dyled o £40 i brif gyflenwr LPG. Roeddent yn bygwth ei datgysylltu, a fyddai wedi golygu y byddai wedi gorfod talu £300 i ailgysylltu. Roedd hi'n ddynes fregus a oedd wedi gorfod ffoi rhag trais domestig ac a oedd i bob pwrpas yn byw'n guddiedig. Sut gellir mynnu bod cwmni fel hwn yn atebol? Pe bai'n gyflenwr ynni traddodiadol, gallech gysylltu â'r Ombwdsmon Ynni. "*
>
> ***Cyfranogwr grŵp ffocws, Ynys Môn***

Awgrymodd rhai o'r cyfranogwyr mai un ffordd o leddfu'r pwysau ar lawer fyddai trwy ryw fath o fenter grantiau wedi'i dylunio'n benodol i gefnogi pobl sy'n byw yn ardaloedd gwledig Cymru ac sy'n cael trafferth talu eu biliau ynni.

> *"Mae rhai o fy nghleientiaid i'n defnyddio olew ac yn methu ei fforddio, ond does ganddyn nhw ddim llawer o ddewis. Mae un fenyw rwy'n rhoi cyngor iddi yn byw yn ystafell fyw ei thŷ gyda thân nwy un bar. Mae'n rhaid iddi ymbalfalu i gael gafael ar boteli nwy gan ffrindiau sy'n gweithio yn y maes adeiladu.*
>
> *Os na all pobl fforddio llenwi eu tanc olew, fe fyddan nhw'n mynd i'r orsaf betrol ac yn talu 75c am litr o gerosin i gynhesu eu cartref. "*
>
> ***Cyfranogwr grŵp ffocws, Sir Benfro***

Bu'r cyfranogwyr yn Nhrefyclo hefyd yn trafod tlodi yn fwy cyffredinol, a'i effaith ar symudedd cymdeithasol.

*"Os ydych chi eisiau swydd, mae'n rhaid i chi redeg car. Rhowch gost hynny ar ben talu am drydan, gwres a bwyd - mae bron yn amhosibl i lawer. Dychmygwch fod yn fam sengl yn byw mewn ardal wledig heb fawr o gefnogaeth, os o gwbl, yn ceisio jyglo'r ymrwymiadau ariannol hynny. "*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Powys***

Yn ôl y cyfranogwyr, mae rhai o'r heriau eraill sy'n wynebu pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn cynnwys prisiau amrywiol, cymorth o safon annigonol i bobl fregus a chwsmeriaid yn gorfod gwario swm sylweddol i lenwi tanciau neu'n archebu lleiafswm.

## Stoc tai

Roedd yr holl gyfranogwyr yn cytuno ei bod yn anodd cael gafael ar dai o ansawdd da, yn enwedig i'r rheini ar incwm isel.

*"Mae pobl ar incwm isel yn gyfyngedig i lety â rhent rhatach, ac yn aml nid yw'r rhain yn effeithlon o ran ynni … ac mae hyd yn oed y rhai mewn eiddo sy'n perthyn i gymdeithasau tai yn cael problemau."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Ynys Môn***

*"Os oes tai newydd yn cael eu hadeiladu ar ystadau cymdeithasau tai sy'n bodoli'n barod a bod y tai newydd yn gallu manteisio ar yr holl fuddion effeithlonrwydd ynni, ond nad yw cartrefi sy'n bodoli'n barod yn cael eu huwchraddio, fe all hyn achosi problemau - yn enwedig o ran cydlyniant cymdeithasol."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Ceredigion***

Er bod safon eiddo myfyrwyr wedi gwella, esboniodd y cyfranogwyr a oedd yn fyfyrwyr nad yw'r mwyafrif yn effeithlon o ran ynni.

## Mesuryddion deallus

Esboniodd rhai o'r bobl a oedd yn cymryd rhan fod mesuryddion deallus yn ddefnyddiol wrth fonitro defnydd ac roeddent wedi'u calonogi'n benodol ar ôl gweld strategaeth Cwsmeriaid Bregus newydd Ofgem yn ddiweddar. Fodd bynnag, cododd rhai o'r cyfranogwyr bryderon.

*"… Fodd bynnag, rydw i'n eithaf beirniadol o'r ffordd y cafodd cenhedlaeth gyntaf y mesuryddion deallus eu cyflwyno gan nad oeddent yn gallu gweithredu'n llawn os oedd y defnyddiwr yn newid cyflenwr. Mae hyn yn creu ei broblemau ei hun, gyda*

*chwsmeriaid yn newid cyflenwr a ddim yn cael gwybod am y broblem i'r ffordd roedd yn gweithio.*

*Rwyf wedi delio â nifer o achosion o gwsmeriaid yn credu bod eu mesuryddion yn gweithredu fel rhai deallus a bod eu defnydd yn cael ei fonitro'n gywir, ac yna'n cael gwybod gan y cyflenwr newydd mai amcangyfrif o'u defnydd ydoedd, gan arwain at filiau dal i fyny yn aml yn achosi i gleientiaid fynd i ddyled."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Rhondda Cynon Taf***

## Iechyd a lles

Roedd yr holl gyfranogwyr yn cytuno y gall byw mewn tlodi tanwydd, neu fod mewn perygl ohono, gael effaith sylweddol ar iechyd a lles unigolyn.

*"Mae pryder ac iselder yn dod yn sgil byw mewn tlodi tanwydd. Gallwn wneud gwaith gwych gyda phobl i helpu i hybu eu hincwm, ond maen nhw'n aml yn bobl hynod fregus a fydd yn ei chael hi'n anodd beth bynnag."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Sir Benfro***

*"Dychmygwch fyw yn y fath yna o dlodi. Mae cymaint o bobl yn dioddef o iselder a gorbryder. Nid yw'n anghyffredin i bobl ddod ataf am gyngor ynghylch eu dyledion a dweud nad ydyn nhw eisiau bod yma bellach. "*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Ceredigion***

## Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru

*"Mae delio â Nyth yn iawn, oherwydd ar ôl i chi gyfrifo faint fydd gan y cleient hawl iddo, mae'n wych achos bydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w fywyd. Mae'r meini prawf cymhwysedd yn wirioneddol hael, yn enwedig nawr bod y meini prawf iechyd wedi'u hychwanegu. "*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Ynys Môn***

Roedd barn pobl am Raglen Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru a Nyth yn benodol yn gadarnhaol ar y cyfan.

Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr grwpiau ffocws a oedd â phrofiad o gynghori cleientiaid ar faterion ynni a gwneud ceisiadau Nyth ar eu rhan yn esbonio bod lle i wella. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- **Ffenestri**: byddai'n ddefnyddiol pe bai ffenestri'n cael eu cynnwys fel rhan o gynllun Nyth. Mae pobl yn colli gwres os yw eu ffenestri yn rhai gwydr sengl neu os yw eu fframiau ffenestri wedi pydru.
- **Cysondeb**: Cododd un cyfranogwr bryderon ynghylch cysondeb wrth gymeradwyo ceisiadau Nyth. Rhoddodd gyngor i un teulu gyda dau o blant a oedd yn derbyn cyfradd uwch y Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) a'r Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) ac a oedd yn rhentu'n breifat. Roedd y teulu'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer boeler newydd yn eu cartref a derbyniwyd eu cais Nyth i ddechrau. Fodd bynnag, darganfu Nyth fod y landlord yn berchen ar sawl eiddo a'i fod wedi gwneud ceisiadau niferus i Nyth. Oherwydd hynny, gwrthododd Nyth gais y teulu. Dim ond pan ymyrrodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, y cafodd y mater ei ddatrys.
- **Cynnydd**: Esboniodd y cyfranogwyr a oedd â phrofiad o gynghori pobl ar faterion ynni y byddai'n ddefnyddiol gallu olrhain cynnydd ceisiadau Nyth.
- **Cyfeiriad**: Cododd rhai cyfranogwyr faterion yn ymwneud ag unigolion sy'n hunangyflogedig ac sy'n defnyddio eu cyfeiriad cartref fel eu cyfeiriad busnes. Gall hyn beri anawsterau os bydd Nyth yn cynnal chwiliadau.

Esboniodd un cyfranogwr ei fod wedi cynghori cleient yn ei phumdegau sy'n gweithio'n rhan-amser, yn bennaf oherwydd problemau iechyd. Mae hi'n byw mewn lleoliad nad yw ar y grid ac yn defnyddio olew i gynhesu ei heiddo. Roedd ganddi system gwres canolog olew newydd sbon a oedd wedi ei osod gan Nyth ddwy flynedd yn ôl ond ni allai fforddio talu am yr olew. Mae'r tanc wedi bod yn wag ers ei osod.

*"Wrth gwrs, gallwch chi roi system wresogi newydd i mewn, ond os na allan nhw fforddio ei chynnal, beth yw'r pwynt? Mae angen i bethau fod yn gynaliadwy. Mae'n paratoi pobl i fethu. "*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Sir Benfro***

*"Nid gosod boeler newydd yw'r ateb bob tro, yn enwedig lle mae angen mynd i'r afael ag adeiladwaith yr adeilad."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Rhondda Cynon Taf***

Roedd lefel ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cynllun yn gyffredinol isel ac nid oedd rhai yn ymwybodol ohono o gwbl.

## Yr Ombwdsmon Ynni

*"Mae pwerau'r Ombwdsmon Ynni yn eithaf cyflym… ond hyd yn oed os ydyn nhw'n barnu o'ch plaid, mae'r dyfarniad yn eithaf bach. Maen nhw'n aml yn cyfeirio atynt fel symiau 'ewyllys da'. "*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Sir Benfro***

Esboniodd un cyfranogwr ei fod wedi dod ar draws rhai sefyllfaoedd lle'r oedd sefyllfa cleientiaid ynni y tu allan i gylch gwaith yr Ombwdsmon Ynni. Yr enghraifft gyntaf oedd lle'r oedd y cyflenwr ynni yn cael ei ddiddymu ac roedd gan y cleient ddyled i'r cyflenwr ynni. Yn y sefyllfa hon, nid yw'r cleient yn cael ei amddiffyn gan reolau bilio ac o'r herwydd, mae'n rhaid delio'n uniongyrchol â'r diddymwr ac nid oes modd troi at yr Ombwdsmon Ynni. Yr ail enghraifft yw lle mae gwaith wedi'i wneud yn eiddo'r cleient drwy gynllun Nyth ond lle mae problem wedi codi gyda'r gwaith gosod. Gall fod yn anodd datrys y mater. Gofynnodd un cyfranogwr a all yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus dderbyn cwynion am Nyth.

## Addysg

Roedd yr holl gyfranogwyr yn cytuno bod lefel y ddealltwriaeth o filiau a hyder wrth newid tariffau neu gyflenwyr ynni yn gyffredinol isel.

*"Mae llawer o bobl yn hunan-ddatgysylltu. Felly maen nhw'n gwneud dewis ymwybodol rhwng gwresogi a bwyta ond dydyn nhw ddim yn sylweddoli bod yn rhaid parhau i dalu tâl sefydlog. "*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Sir Benfro***

*"Mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o sut mae marchnadoedd ynni'n gweithio nesaf peth at ddim. Fe wnes i gynorthwyo un gŵr i arbed £825 y flwyddyn ar ei filiau tanwydd. Roedd ar fesurydd rhagdalu a newidiodd i dalu drwy ddebyd uniongyrchol. Weithiau mae'n fater o arfer - mae pobl yn teimlo'n gyffyrddus yn cadw at yr hyn maen nhw'n gyfarwydd ag ef. "*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Merthyr Tudful***

Roedd rhai o'r cyfranogwyr, yn cynnwys myfyrwyr, yn esbonio y dylai addysg ffurfiol gynnwys mwy o bwyslais ar ddeall materion ariannol, gan gynnwys biliau tanwydd.

*"Mae darllen a deall biliau yn gallu bod yn ddryslyd. Dydyn nhw ddim bob amser yn hawdd eu defnyddio a gallant amrywio cryn dipyn. Yn ddelfrydol mae'n rhywbeth y dylid bod wedi delio ag ef fel rhan o'r cwricwlwm ysgolion. "*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Conwy***

*"Mae ynni'n cael ei ystyried yn fater o flaenoriaeth isel i lawer o'r bobl rydyn ni'n eu cynghori. Fodd bynnag, pryd bynnag rydyn ni'n dod ar draws rhywun sydd â dyled neu broblem budd-dal lles, yn amlach na pheidio, mae problem ynni yno hefyd. "*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Ynys Môn***

Esboniodd y cyfranogwyr a oedd yn fyfyrwyr fod biliau tanwydd yn aml yn eithaf isel ar eu rhestr o flaenoriaethau. Yn aml, bydd biliau tanwydd yn cael eu cynnwys yn eu taliad rhent felly anaml y bydd ganddynt gyfle i herio'r gost neu'r awydd i wneud hynny chwaith.

*"Os ydych chi'n rhentu tŷ gan rywun, dydych chi ddim yn teimlo y gallwch chi newid cyflenwr. Byddwn yn synnu os dewch o hyd i fyfyriwr sydd wedi newid tariff. Does gan y mwyafrif o fyfyrwyr ddim syniad beth fyddai bargen neu dariff 'da'. "*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Gwynedd***

## Anabledd

Trafododd rhai o gyfranogwyr y grwpiau ffocws yr heriau unigryw y mae tlodi tanwydd yn eu hachosi i bobl anabl.

*"Os oes gennych chi anabledd hirdymor, yn aml mae angen i chi ddefnyddio mwy o drydan oherwydd y gwahanol offer rydych chi'n ei ddefnyddio. Dw i'n ddall, felly os oes angen i mi wneud pethau, mae angen i mi gynnau'r golau - mae hynny'n wir gydol y flwyddyn, nid dim ond pan mae'n dywyll. Yn aml mae angen i mi newid offer er mwyn i mi allu gwneud pethau'n annibynnol, ac mae hynny'n cael effaith wedyn ar filiau.*

*Er nad ydw i mewn tlodi tanwydd, dim ond llwyddo i gael deupen llinyn ynghyd ydym ni. Un incwm sy'n dod i mewn ac yn cynnal y ddau ohonom. Rydyn ni ychydig yn uwch na'r trothwy felly does gennym ni ddim hawl i gael unrhyw gymorth ychwanegol. "*

***Cyfranogwr grŵp ffocws, Powys***

## Materion eraill

- Cwmnïau ynni llai yn cael eu gorfodi i gau sy'n cael effaith ganlyniadol ar filio. Mae'r nifer yn cynyddu gyda thri i bedwar cwmni ynni wedi mynd i'r wal yn ystod y tair blynedd diwethaf.

- Dywedodd rhai o'r cyfranogwyr eu bod wedi newid darparwyr ynni ar ôl ymweliad gan werthwyr stepen drws a galwadau diwahoddiad, gyda rhai darparwyr ynni yn waeth nag eraill.
- Mae rhai wedi cael trafferth deall sut mae gwresogi ffynhonnell aer yn gweithio, ac eraill wedi cael gosod systemau newydd er bod eu heiddo yn anaddas ar gyfer gwres cefndir lefel isel.

**Julie James AC / AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Ein cyf/Our ref MA/JJ/0061/20

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd,
Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd

29 Ionawr 2020

Annwyl Mike,

Diolch ichi am adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft. Rwy'n ddiolchgar am waith craffu'r Pwyllgor hyd yma ar y Fframwaith drafft, ac rwy'n fodlon derbyn yr un argymhelliad a wneir yn yr adroddiad. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hymateb i'r adroddiad ochr yn ochr â'r fersiwn nesaf o'r Fframwaith pan ddaw gerbron y Cynulliad i graffu arni yn 2020.

Ar hyn o bryd rydym yn dadansoddi casgliadau'r Pwyllgor ynghyd â'r holl ymatebion eraill i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith, ac rwy'n disgwyl y bydd newidiadau arfaethedig i'r Fframwaith o ganlyniad i'r gwaith hwn.

Diolch ichi unwaith eto am waith craffu manwl y Pwyllgor hyd yma.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AC / AM**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft**

**29 Ionawr 2020**

---

Rwy'n croesawu adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft ac rwy'n ddiolchgar am waith craffu'r Pwyllgor hyd yma. Nodaf fod yr adroddiad ond yn cynnwys un argymhelliad sy'n cael ei ystyried isod, ond mae 51 o gasgliadau eraill y mae'r Llywodraeth yn eu hystyried ar hyn o bryd hefyd. Mae'r casgliadau yn gysylltiedig â'r argymhelliad, a byddwn yn llunio atodlen o'r ymatebion i gasgliadau'r Pwyllgor maes o law.

Mae'r ymateb i argymhelliad yr adroddiad wedi'i nodi isod.

**Argymhelliad 1**.

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei hymateb i'r adroddiad hwn ochr yn ochr â'r fersiwn nesaf o'r Fframwaith pan ddaw gerbron y Cynulliad i graffu arni yn 2020.

Dylai ei hymateb fynd i'r afael â phob un o gasgliadau'r Pwyllgor. Lle mae casgliad wedi awgrymu diwygiad i'r Fframwaith drafft, dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw wedi cael ei ymgorffori neu ei adlewyrchu yn y Fframwaith terfynol a sut y gwnaed hynny.

Lle mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu na ddylid ymgorffori nac adlewyrchu casgliad yn y Fframwaith, dylai ddweud pam. Lle mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y byddai'n fwy priodol ymdrin â chasgliad mewn dogfen gynllunio neu ddogfen bolisi arall, dylai gyfeirio at y ddogfen benodol honno.

**Ymateb**

Rwy'n derbyn yr un argymhelliad sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i bob casgliad unigol sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, a bydd yn nodi sut y diwygiwyd y Fframwaith o ganlyniad i hynny. Pan na fo unrhyw newidiadau wedi eu cynnig, ac y penderfynir y byddai'n fwy priodol ymdrin â'r mater yn rhywle arall, caiff hynny ei nodi'n glir.

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a
Materion Gwledig
Mike Hedges AC,

27 Ionawr 2020

## *Y WYBODAETH DDIWEDDARAF GAN BWYLLGOR SBWRIEL A GWASTRAFF PLASTIG SENEDD IEUENCTID CYMRU*

**Annwyl Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig,**

Fel y gwyddoch, y llynedd, cyfarfu Senedd Ieuenctid Cymru (y Senedd Ieuenctid) yn Siambr y Senedd am y tro cyntaf. Yno, trafododd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru (ASICau) y 18 pwnc gwahanol a gafodd eu nodi'n rhai pwysig i bobl ifanc ledled Cymru. Dyma'r tri phrif fater y penderfynodd y Senedd Ieuenctid ganolbwyntio arnynt:

1. Cymorth Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl
2. Sbwriel a Gwastraff Plastig
3. Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm

Wedi dewis y tri maes blaenoriaeth hyn, penderfynodd yr ASICau y dylent ffurfio pwyllgorau pwnc. Rhan bwysig o waith pob pwyllgor yw ymgynghori â phobl ifanc eraill, sefydliadau perthnasol, grwpiau ieuenctid a staff i helpu'r pwyllgor i gael dealltwriaeth fanylach o'r materion, ac i helpu i lywio argymhellion allweddol y Senedd Ieuenctid.

Rydym ni yn y Pwyllgor Sbwriel a Gwastraff Plastig eisoes wedi ymgynghori â sefydliadau sy'n arwain y sector, fel Wrap Cymru, Syrffwyr yn erbyn Carthion, ac Iechyd Da. Ein bwriad yw cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth i wella dealltwriaeth pobl ifanc o'r mater pwysig hwn, ac yn ystod y broses ymgynghori â phobl ifanc (mewn digwyddiadau a thrwy arolwg ar-lein) i ddarganfod pa gamau, yn eu barn nhw, y dylid eu cymryd yn y dyfodol.

Dyma rai o ddyddiadau allweddol Pwyllgor Sbwriel a Gwastraff Plastig y Senedd Ieuenctid yn 2020:

| Mis | Gweithgarwch |
| --- | --- |
| Ionawr/Chwefror | **Cyfarfodydd rhanbarthol** i bob ASIC yn y pedwar rhanbarth i gynllunio gweithgaredd ymwybyddiaeth ac ymgynghori |
| Mawrth 23 a 30 | **Digwyddiadau rhanbarthol** yn cynnwys ASICau a phobl ifanc eraill ledled Cymru. Bydd Pwyllgor Sbwriel a Gwastraff Plastig y Senedd Ieuenctid yn lansio ein hymgynghoriad yn y digwyddiadau hyn, lle byddwn yn achub ar y cyfle i gael trafodaethau â phobl ifanc eraill, gan gynnwys aelodau o eco-gynghorau ysgolion, i nodi arfer da a meysydd i'w gwella. Drwy'r ymgyrch ymwybyddiaeth ehangach a'r ymgynghoriad, bydd ein Pwyllgor hefyd yn ymgysylltu ag ystod amrywiol o bobl ifanc ledled Cymru. |
| Mawrth | Bydd Staff Senedd Ieuenctid ac ASICau yn cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth mewn ysgolion, colegau a sefydliadau ieuenctid. |
| Gorffennaf | Cau'r ymgynghoriad a dadansoddi'r canlyniadau. |
| Medi | Rhannu'r canlyniadau a chyhoeddi adroddiad ar ein casgliadau |
| Tachwedd | Penwythnos preswyl olaf (Cyfarfod Llawn olaf 13.11.2020) |

Byddem yn falch iawn pe byddech chi a/neu aelodau eraill o'r Pwyllgor yn ystyried ymuno â ni yn ein digwyddiadau rhanbarthol ym mis Mawrth ac ar gyfer Cyfarfod Llawn olaf Senedd Ieuenctid Cymru ar 13 Tachwedd 2020 yn y Siambr, Caerdydd (manylion isod). Byddwn hefyd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith, ac i wahodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol i'r digwyddiadau hyn.

Fel Pwyllgor, byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y mater hwn, a byddem yn hapus i drafod syniadau a chyfleoedd ar gyfer gweithio gyda'n gilydd.

Cynhelir y digwyddiadau ar y dyddiadau isod:

| Dyddiad ac amser | Lleoliad |
|---|---|
| Dydd Llun 23 Mawrth<br>10:00 – 14:30 | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru |
| Dydd Llun 30 Mawrth<br>10:00 – 14:30 | Prifysgol Bangor |

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw beth yn y llythyr hwn, mae croeso ichi gysylltu â **helo@seneddieuenctid.cymru**.

Diolch am eich cefnogaeth.

Yn gywir,

Senedd Ieuenctid Cymru

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon